

# Dywedwch Wrthym Unwaith



Mae'r daflen hon yn esbonio sut y gallwn eich helpu i roi gwybod i'r Cyngor ac i adrannau'r Llywodraeth fod rhywun wedi marw.

.....yn darparu gwasanaethau gyda'n gilydd

## Dywedwch Wrthym Unwaith

Pan fydd rhywun yn marw, bydd angen gwneud llawer o bethau, a hynny ar adeg pan fyddwch yn teimlo fel gwneud dim, mae'n debyg. Un o'r pethau hynny yw cysylltu ag adrannau'r Llywodraeth a gwasanaethau'r awdurdod lleol i ddweud wrthynt am y farwolaeth.

Mae cynghorau gogledd Cymru yn darparu gwasanaeth a fydd, gobeithio, yn gwneud pethau'n haws. Mae'r gwasanaeth newydd hwn yn golygu mai dim ond wrthym ni y bydd angen i chi ddweud, a byddwn ni wedyn yn cysylltu â'r sefydliadau hyn ar eich rhan.

### Sut y gall y gwasanaeth eich helpu chi

Pan fydd rhywun yn marw, bydd angen cofrestru eu marwolaeth gyda'r Cofrestrydd. Unwaith mae hynny wedi'i wneud, efallai y bydd angen cysylltu â llawer o sefydliadau eraill i roi'r un wybodaeth iddynt.

Gallwn eich helpu chi i roi'r wybodaeth i'r Adran Gwaith a Phensiynau ac yna byddant hwy yn anfon y wybodaeth ymlaen i nifer o adrannau eraill y llywodraeth ac i wasanaethau'r awdurdod ar eich rhan.

### Sut y gallwch chi gysylltu â ni i ddefnyddio'r gwasanaeth

Mae gwahanol ffyrdd y gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth:

- Wyneb yn wyneb - ar ôl cofrestru'r farwolaeth. Bydd y Cofrestrydd yn cymryd y wybodaeth gennych ac yn ei rhoi i'r Adran Gwaith a Phensiynau ar eich rhan.
- Trwy ffonio - gallwch ffonio'r Adran Gwaith a Phensiynau ar 0800 085 7308 (mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o 8am tan 8pm). Mae'r rhif hwn yn rhad ac am ddim o linell BT ond mae'n bosibl y bydd darparwyr eraill yn codi tâl, gan gynnwys darparwyr ffonau symudol. Os nad ydych yn siarad Cymraeg na Saesneg,

ffoniwch ni ar 0800 085 7308 a bydd un o'n hymgyngorwyr a'n cyfieithwyr yn eich ffonio'n ôl i'ch helpu. Os ydych yn ffonio o Gymru bydd gennych y dewis o barhau gyda'r alwad yn Gymraeg.

### Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth?

Os byddwch yn penderfynu defnyddio'r gwasanaeth byddwn yn gallu dweud wrth y sefydliadau canlynol:

#### Adran Gwaith a Phensiynau:

Y Gwasanaeth Pensiwn, Anabledd a Gofalwyr Canolfan Byd Gwaith  
Tim Iechyd Tramor

#### Gweinyddiaeth Amddiffyn, Personél Gwasanaethau ac Asiantaeth Cyn - Filwyr:

Cynllun Pensiynau Rhyfel

#### Cyllid a Thollau EM:

Budd-dal Plant  
Credydau Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith  
Treth Bersonol

#### Gwasanaeth Pasbort a Hunaniaeth

#### Cynghorau Lleol:

Swyddfa Budd-dal Tai  
Swyddfa Budd-dal Treth Cyngor

Gallwn hefyd ddweud wrth y sefydliadau hyn os byddwch yn gofyn i ni wneud hynny:

#### Cynghorau Lleol:

Tai Cyngor  
Treth Gyngor  
Llyfrgelloedd  
Bathodynau Glas  
Gwasanaethau Oedolion  
Gwasanaethau Plant  
Casglu taliadau am wasanaethau'r Cyngor  
Gwasanaethau Etholiadol

#### Asiantaeth Trwyddedu Gyrrwyr a Cherbydau

## Sut y byddwn yn trin y wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni

Byddwn yn trin y wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni yn ddiogel ac yn gyfrinachol. Bydd y sefydliadau rydym yn rhoi eich gwybodaeth iddynt yn ei defnyddio i ddiweddarar cofnodion; i ddod â gwasanaethau, budd-daliadau a chredydau i ben fel y bo'n briodol; ac i ymdrin ag unrhyw faterion tebyg eraill. Efallai y byddant yn defnyddio'r wybodaeth rydym yn ei rhoi iddynt mewn ffyrdd eraill, ond dim ond os yw'r gyfraith yn caniatáu hynny.

## Gwybodaeth y bydd ei hangen arnoch i ddefnyddio'r gwasanaeth

I wneud yn siŵr bod y wybodaeth gywir yn cael ei rhoi i unrhyw sefydliadau rydym yn cysylltu â hwy ar eich rhan ac er mwyn i chi fanteisio i'r eithaf ar y gwasanaeth byddai'n helpu pe baech yn dod â'r wybodaeth ganlynol ynglŷn â'r person sydd wedi marw:

- Eu rhif Yswiriant Gwladol a dyddiad geni
- Manylion unrhyw fudd-daliadau a gwasanaethau roeddent yn eu derbyn
- Eu tystysgrif marwolaeth
- Eu Trwydded Yrru neu rif y Drwydded Yrru
- Eu Pasbort neu rif y Pasbort a thref/gwlad eu genedigaeth

Efallai y byddwn yn gofyn i chi hefyd am fanylion cyswllt:

- Eu perthynas agosaf
- Unrhyw ŵr, gwraig neu bartner sifil sy'n dal yn fyw
- Y person sy'n delio â'u hystâd

Mae'n rhaid i chi hefyd gael caniatâd y person a restrir uchod os ydych yn mynd i roi gwybodaeth i ni amdanynt.

## Perthynas Agosaf

Os chi yw perthynas agosaf yr ymadawedig (drwy waed neu briodas), mae'n bosibl y bydd newidiadau yn y budd-daliadau y gallwch eu hawlio, felly gofalwch fod eich rhif Yswiriant Gwladol chi a/neu'ch dyddiad geni gennych pan fyddwch yn cysylltu â ni.

Os nad chi yw'r berthynas agosaf, neu'r person sy'n delio ag ystâd yr ymadawedig (y person sy'n didoli eu heiddo a'u harian) gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth hwn o hyd os oes gennych eu caniatâd i roi'r manylion ac i weithredu ar eu rhan.

## Preifatrwydd

Mae'r gwasanaeth hwn wedi ymrwymo i sicrhau bod eich gwybodaeth wedi ei diogelu. Mae ein datganiad preifatrwydd yn dweud wrthynt sut y byddwn yn defnyddio ac yn diogelu'r wybodaeth rydych yn ei rhoi pan fyddwch yn defnyddio'r gwasanaeth. Gofynnwch i'r Ymgynghorwr os ydych yn dymuno gweld yr holl ddatganiad preifatrwydd.

Cofiwch mai eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gan yr holl sefydliadau sy'n talu budd-dal/credyd neu'n rhoi gwasanaeth i chi, y wybodaeth gywir a chyfredol amdanoch chi.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch Cyngor lleol:

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

01492 576625 neu [www.conwy.gov.uk/DWU](http://www.conwy.gov.uk/DWU)

### Cyngor Sir Ddinbych

01745 366610 neu [www.sirddinbych.gov.uk/DWU](http://www.sirddinbych.gov.uk/DWU)

### Cyngor Sir y Fflint

01352 703333 neu [www.siryfflint.gov.uk/DWU](http://www.siryfflint.gov.uk/DWU)

### Cyngor Gwynedd

01766 771000 neu [www.gwynedd.gov.uk/DWU](http://www.gwynedd.gov.uk/DWU)

### Cyngor Sir Ynys Môn

01248 723958 neu [www.ynysmon.gov.uk/DWU](http://www.ynysmon.gov.uk/DWU)

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

01978 292027 neu [www.wrecsam.gov.uk/DWU](http://www.wrecsam.gov.uk/DWU)

